Ailddatblygiad Maes Emlyn: Cwestiynau Cyffredin

Beth ydym yn ei wneud?

Mae Maes Emlyn yn adeilad tai gwarchod yn y Rhyl. Mae'r holl gyn-breswylwyr wedi symud allan ac mae'r safle yn wag ar hyn o bryd. Yn hirdymor, rydym yn bwriadu ymgynghori ar, a chyflwyno ceisiadau cynllunio i ailddatblygu'r safle i mewn i dai. Yn y tymor byr, rydym yn cynnig ailddefnyddio Maes Emlyn i wasanaethu fel llety brys dros dro ar gyfer pobl yn Sir Ddinbych sy'n profi digartrefedd.

Beth mae pobl ddigartref yn ei olygu?

Gall bobl sydd heb sefyllfa byw parhaol neu ddiogel gael eu hystyried yn ddigartref. Gall bobl brofi digartrefedd am resymau amrywiol, gan gynnwys:

- Yn sgil argyfyngau megis llifogydd neu dân
- Yn sgil chwalu perthynas
- Newid mewn amgylchiadau megis colli swydd neu ddod yn sâl gan olygu nad allent fforddio talu eu morgais neu rent
- Problemau meddyliol neu gorfforol megis camddefnyddio sylweddau

Gall ddigartrefedd ddigwydd i unrhyw un ar unrhyw adeg.

Pam ydym ni'n gwneud hyn?

- Mae gennym nifer fawr o aelwydydd yn Sir Ddinbych sydd, am resymau amrywiol, yn ddigartref, ac rydym eisiau gallu darparu safon dda o lety brys dros dro iddynt. Bydd hyn yn ffurfio rhan o ystod o ddarpariaethau sydd ar gael, megis llety dros dro ar gyfer y rhai sy'n cysgu ar y stryd ac angen lloches dros nos a llety â chymorth arbenigol ar gyfer pobl gydag anghenion cefnogi penodol, megis dianc oddi wrth drais.
- **G**all ddod o hyd i lety brys dros dro ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd fod yn anodd, ac ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn dibynnu ar Westai lleol a busnesau Gwely

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English

a Brecwast i'n helpu i ddiwallu'r galw. Nid yw'r math hwn o lety yn addas ar gyfer byw o ddydd i ddydd, ac mae lletya pobl mewn Gwestai neu fusnesau Gwely a Brecwast dros dro yn lleihau'r swm o lety sydd ar gael ar gyfer twristiaeth.

- Hoffem allu lletya pobl dros dro mewn llety arbenigol gydag ystod o wasanaethau cymorth ar y safle a fydd yn ein galluogi i'w cefnogi'n ddiogel i symud i lety parhaol.

Faint o bobl ddigartref a gaiff eu lletya ym Maes Emlyn?

Bydd 24 o unedau llety brys dros dro ar gael ym Maes Emlyn. Bydd mwyafrif y rhain ar gyfer pobl sengl neu gyplau heb blant.

Pa mor hir ydych chi'n rhagweld y bydd pobl ddigartref yn byw ym Maes Emlyn?

Ar y cyfan, bwriadwn ddefnyddio'r safle am oddeutu 5 mlynedd.

Bwriedir i'r defnydd o brif adeilad Maes Emlyn ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd fod yn fesur dros dro tan y gellir dod o hyd i denantiaeth ar eu cyfer. Yn ystod yr amser mae pobl yn derbyn llety brys dros dro ym Maes Emlyn, byddwn yn cefnogi'r unigolion hynny i gael mynediad at unrhyw gymorth sydd eu hangen arnynt a darparu gweithgareddau a chyfleoedd datblygu iddynt er mwyn cael hyder a sgiliau i sicrhau cartref parhaol a chael y gefnogaeth iawn i gadw eu tenantiaeth.

Trwy ddarparu cymorth dwys i unigolion sy'n derbyn llety dros dro ym Maes Emlyn, rhagwelwn y gallent symud i'w tenantiaeth eu hunain yn gyflymach na'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn llety math Gwely a Brecwast. Nod Maes Emlyn yw sicrhau fod pawb sy'n derbyn llety yno yn cael eu cefnogi i ymgysylltu gyda'r cymorth cywir ac ennill sgiliau i symud i gartref parhaol a chadw eu tenantiaeth.

Gan ddefnyddio'r prif adeilad ym Maes Emlyn, bwriedir hyn i fod yn fesur dros dro am oddeutu 5 mlynedd er mwyn ein helpu i ddarparu llety brys dros dro o ansawdd ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd. Bydd Maes Emlyn yn ein caniatáu ni i leihau ein dibynadwyedd ar lety math Gwely a Brecwast.

Maes Emlyn Redevelopment: FAQs

A yw Maes Emlyn am gael ei ddefnyddio ar gyfer pobl sy'n dewis dod i fyw yn y Rhyl o ardaloedd eraill?

Pan fydd rhywun yn datgan eu bod yn ddigartref yn Sir Ddinbych, rydym bob amser yn sefydlu os oes ganddynt gysylltiad â'r ardal leol. Os nad ydynt, byddwn yn eu cefnogi nhw'n i ddychwelyd i'w hardal leol, oni bai eu bod yn dianc oddi wrth drais/camdriniaeth ac angen cael eu cadw'n ddiogel. Lle bynnag bosibl, rydym yn ceisio lletya pobl mor agos â phosibl at eu cymuned leol, felly mae mwyafrif y bobl rydym yn eu cefnogi yn y Rhyl o'r ardal leol